# United Nations Convention on the Rights of the Child - UNCRC Articles

There are 54 sections in the Convention detailing these rights. They are known as Articles. Below are the ones we think are particularly important to Playwork and Playworkers.
(There are 54 Articles in the Convention - 1-42 outline the Children's fundamental Rights, 43-54 outline the government's, local authorities and adults duties in enforcing their rights)

## ARTICLE 3

### All organisations concerned with children should work towards what is best for each child.

**Why is this important to playwork?**
As playworkers children are the prime focus of our work, we strive to ensure their development and wellbeing is at the centre of everything we do in our settings. We have legislation, guidelines and policies and procedures to help us to ensure we aim for the best outcomes for every child.

**Keywords associated with Article 3:** Children, Best, Organisations, Work, Policies and Procedures, Legislation, Induction, Training

## ARTICLE 12

### Children have the right to say what they think should happen, when adults are making decisions that affect them, and to have their opinions taken into account.

**Why is this important to playwork?**
Children need to have their say about their play space and their play time. Our play settings are often these days compensatory play spaces for children to be able to play freely and we need to ensure they are consulted on their play. This can include, what they want to play, Food menus, activities they would like to do at club, the layout of the play settings and even staff recruitment and policies and procedures. Some ways to consult with children and young people can include questionnaires, dot voting, circle time discussions, children's council.

**Keywords associated with Article 12:** Consultation, Decisions, Affect, Opinions, Questionnaires, Suggestion box, The Right, Adults, A Voice, Empowerment, Safeguarding, Choice, Ownership

## ARTICLE 15

### Children have the right to meet together and to join groups and organisations, as long as this does not stop other people from enjoying their rights.

**Why is this important to playwork?**
In the busy life we now live in very often our play settings may be the only time children get to play and meet with their friends outside of structured school time. As settings we need to be inclusive to ensure all children are able to enjoy time together playing as children.

**Keywords associated with Article 15:** Together, Meet, Groups, Playing, Social, Engagement, Belonging,

## ARTICLE 23

### Children who have any kind of disability should have special care and support so that they can lead full and independent lives.

**Why is this important in playwork?**
It is important that our settings are as inclusive as possible to include all children. We can do this in many ways, through working with children and parents to see how we can support the child and family best.

**Keywords associated with Article 23:** Disability, Support, Independent, Settings, Inclusive, Children, Parents, Family, Risk and challenge, Resilience, Accessible, Belonging

## ARTICLE 31

### All children have a right to relax and play, and to join in a wide range of activities.

**Why is this important in playwork?**
This article encompasses everything we are as settings, it sets out the children's right to have time to play and relax. It takes into account children's rights to join in activities and engage in new and exciting cultural and play opportunities.

**Keywords associated with Article 31:** Relax, Play, Activities, Opportunities, Physical exercise, Freedom, Fun, Sports, Team game, Leisure, Entertainment, Wellbeing, Laughing, Singing, Running, Dancing, Jumping, Creative, Discovery, Space, Time

Registered Office: Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House, Station Road, Llanishen, Cardiff CF14 5UW
T: 029 2074 1000 F: 029 2074 1047
Email: info@clybiauplantcymru.org
Company limited by guarantee 4296436.
Registered charity 1093260.

Clybiau Plant Cymru
KIDS' CLUBS

**www.clybiauplantcymru.org**

# Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - Erthyglau CCUHP

Mae 54 adran i'r Confensiwn sy'n manylu ar yr hawliau hyn. Fe'u gelwir yn Erthyglau. Isod fe welir y rhai sydd yn ein barn ni yn arbennig o bwysig i Waith Chwarae a Gweithwyr Chwarae.
(Mae 54 Erthygl i'r Confensiwn – Mae 1-42 yn amlinellu Hawliau sylfaenol Plant, 43-54 yn amlinellu dyletswyddau llywodraethau, awdurdodau lleol ac oedolion o ran gorfodi eu hawliau.)

## ERTHYGL 3

**Dylai pob cyfundrefn sydd ynglŷn â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn.**

**Pam fod hyn yn bwysig i waith chwarae?**
Plant, i ni fel gweithwyr chware, yw prif ffocws ein gwaith; ymdrechwn i wneud yn sicr bod eu datblygiad a'u llesiant nhw wrth galon popeth a wnawn yn ein lleoliadau. Mae gennym ddeddfwriaeth, canllawiau a pholisïau i'n helpu i sicrhau ein bod yn anelu at y gorau.

**Allweddeiriau cysylltiedig ag Erthygl 3:** Plant, Gorau, Sefydliadau, Gwaith, Polisïau a Gweithdrefnau, Deddfwriaeth, Sefydlu, Hyfforddiant

## ERTHYGL 12

**Mae gan blant yr hawl i ddweud beth yn eu barn nhw a ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn dod i benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn dderbyn gwrandawiad.**

**Pam fod hyn yn bwysig i waith chwarae?**
Mae ar blant angen cael dweud eu dweud ynghylch eu man chwarae a'u hamser chwarae. Yn aml y dyddiau yma mae ein lleoliadau chwarae'n fannau chwarae digolledol lle gall plant chwarae'n rhydd, ac mae angen i ni sicr yr ymgynghorir â nhw ynghylch eu chwarae. Gall hyn gynnwys, beth maen nhw am ei chwarae, bwydlenni, gweithgareddau yr hoffent eu cael yn y clwb, sut mae'r lleoliadau chwarae wedi eu gosod allan, a hyd yn oed recriwtio staff a'r polisïau a gweithdrefnau. Gall rhai o'r ffyrdd o ymgynghori â'r plant a'r bobl ifanc gynnwys holiaduron, pleidleisio dot, sgyrsiau amser cylch, cyngor y plant.

**Allweddeiriau cysylltiedig ag Erthygl 12:** Ymgynghoriad, Penderfyniadau, Effeithio, Barn, Holiaduron, Bocs awgrymiadau, Yr Hawl, Oedolion, Llais, Grymuso, Diogelu, Dewis, Perchnogaeth

## ERTHYGL 15

**Mae gan blant yr hawl i gyfarfod â'i gilydd ac ymuno â grwpiau a sefydliadau, ac eithrio pan fo hyn yn rhwystro pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau nhw.**

**Pam fod hyn yn bwysig i waith chwarae?**
Yn ein bywydau prysur iawn, yn aml gall mai lleoliadau chwarae fydd yr unig adeg y gall plant chwarae a chwrdd â'u ffrindiau y tu allan i oriau penodol yr ysgol. Mae angen i ni fel lleoliadau fod yn gynhwysol er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gallu mwynhau amser chwarae gyda phlant eraill.

**Allweddeiriau cysylltiedig ag Erthygl 15:** Gyda'i gilydd, Cwrdd, Grŵp, Chwarae, Cymdeithasol, Ymgysylltu, Perthyn, Perthnasoedd, Ffrindiau

## ERTHYGL 23

**Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael gofal a chefnogaeth arbennig fel y gallant fyw bywydau llawn ac annibynnol.**

**Pam fod hyn yn bwysig i waith chwarae?**
Y mae'n bwysig bod ein lleoliadau mor gynhwysol â phosib li gynnwys pob plentyn. Gallwn wneud hyn mewn sawl ffordd, drwy weithio gyda'r plant a'r rhieni i weld sut orau y gallwn gefnogi'r plentyn a'r teulu.

**Allweddeiriau cysylltiedig ag Erthygl 23:** Anabledd, Cefnogaeth, Annibynnol, Lleoliadau, Cynhwysol, Plant, Rhieni, Teulu, Risg a her, Gwytnwch, Hygyrch, Perthyn

## ERTHYGL 31

**Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio a chwarae, ac ymuno mewn dewis eang o weithgareddau.**

**Pam fod hyn yn bwysig i waith chwarae?**
Mae'r erthygl hon yn cwmpasu popeth yr ŷm ni fel lleoliadau; mae'n datgan hawl plant i gael amser i chwarae ac ymlacio. Mae'n cydnabod hawliau plant i ymuno mewn gweithgareddau a bod ynglŷn â chyfleoedd diwylliannol a chyfleoedd chwarae newydd a chyffrous

**Allweddeiriau cysylltiedig ag Erthygl 31:** Ymlacio, Chwarae, Gweithgareddau, Cyfleoedd, Ymarfer Corff, Rhyddid, Hwyl, Chwaraeon, Gêm Tîm, Hamdden, Adloniant, Llesiant, Chwerthin, Canu, Rhedeg, Dawnsio, Neidio, Creadigol, Darganfyddiad, Lle, Amser

Swyddfa Gofrestredig: Clybiau Plant Cymru
Kids' Clubs, Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf,
Llanisien, Caerdydd CF14 5UW
Ffôn: 029 2074 1000 Ffacs: 029 2074 1047
Ebost: info@clybiauplantcymru.org
Cwmni a gyfyngir trwy warant 4296436.
Elusen gofrestredig 1093260

Clybiau Plant Cymru
KIDS' CLUBS

**www.clybiauplantcymru.org**